**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Education and Life-Long Learning Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The National Assembly for Wales

Kirsty Williams AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff

CF99 1NA

Dyddiad: 27 Chwefror 2001

Date: 27 February 2001

**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Blaenraglen Waith Strategol**

Yn ei gyfarfod ddydd Mercher 15 Chwefror, ystyriodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes flaenraglen waith strategol y pwyllgorau pwnc eraill.

Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb yn eich trafodaethau ar Raglenni Gwella Iechyd yn enwedig am eu bod yn ymwneud â phlant. Roeddynt o'r farn bod sawl agwedd ar y Rhaglenni Gwella

Iechyd yn effeithio ar les plant e.e. prydau ysgol a llaeth. Roedd y Pwyllgor yn dymuno cofrestru bod ganddo ddiddordeb o hyd yn hynt y Mesur Comisiynydd Plant Cymru.

Pan fu i chi fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor hwn, cafodd gyflwyniad ar y tri phrosiect llywio Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Fe wnaethoch fynegi diddordeb eich Pwyllgor mewn ymwneud ag unrhyw ystyriaeth bellach a roddir i AAA. Felly, hoffwn wahodd eich Pwyllgor i enwebu Aelod i’w gynrychioli mewn cyfarfodydd o’r Pwyllgor Addysg pan fydd materion AAA yn cael eu trafod. Bydd y Clerc yn sicrhau bod yr Aelod a enwebwyd gennych yn derbyn yr holl bapurau perthnasol a’i fod yn cael ei hysbysu am gyfarfodydd pan fydd AAA yn cael ei drafod.

Rwyf wedi gofyn i’r Clerc gysylltu â Jane Westlake ar y materion hyn.

**Cynog Dafis**

Cadeirydd